# Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y Cyfarfod Nos Fawrth 27 Medi 2022 yng Nghaffi Beca, yn dilyn y Cyfarfod Cyhoeddus ynglyn â'r Llwybrau Cyhoeddus

**Yn bresennol:** Anthony Jenner (Cadeirydd), Russel Davies, Dennis Jones, Anthony Eynon, Cyngh Dorian Phillips, Rebecca Jaimangl Jones, Janice Morgan (Clerc)

Yn bresennol hefyd: Julie Sweet (aelod o'r gymuned) ar gyfer eitem o dan Unrhyw Fater Arall

**Ymddiheuriadau:** Tudur Lewis, Vivian Williams, Geraint James

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Mr Anthony Jenner.

1. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2022 fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau ar gynnig RD ac eiliwyd gan AE.

2. **Materion yn codi o 26/7/22:**
   - Anfonodd JM lythyr o gydymdeimlad at Margaret Griffiths, gwraig Gareth. Anfonodd lythyr o ddiolch hefyd at Anwen Phillips am ei gwaith fel clerc a hefyd i Les Owen am ei wasanaeth fel cynghorydd cymuned.
     **Cam gweithredu: JM i gadarnhau dyddiad ar gyfer swper i ddiolch i AP a LO**
   - Cyfrifon 21/22 – dywedodd JM bod Awdit Cymru wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglyn ag ambell fater yn ymwneud â chyfrifon 21/22, sef:
     - y trefniadau wrth wneud taliadau – wedi dychwelyd y wybodaeth
     - eglurhad am yr amrywiad mewn costau staff a'r amrywiad mewn cyfanswm y taliadau eraill. Eglurodd JM bod y rhain yn ymwneud â rhai taliadau yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesa. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei sortio gyda chymorth yr archwilydd mewnol ac wedi'i dychwelyd
     - praesept y cyngor ar gyfer 2022/23 – wedi dychwelyd
     - copi o'n cofrestr asedau – heb ei dychwelyd gan fod angen ei diweddaru. Fe'i diweddarwyd yn y cyfarfod; bydd JM yn ei hanfon at Awdit Cymru cyn gynted
   - Arwyddion:
     - Meini Gŵyr: mae Cadw wedi ymateb ac wedi awgrymu cysylltu â chwmni proffesiynol o'r enw Trysor (cwmni treftadaeth) am gymorth ar sut i greu bwrdd gwybodaeth ar gyfer y safle hanesyddol. Cysylltodd JM â Trysor ac maen nhw'n cofio'r panel gwybodaeth hwn.
       **Cam gweithredu: JM i ofyn a ydy copi o'r panel gyda Trysor a hefyd gofyn am amcanbris**
     - Ynys Fach: mae Emily Hughes o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymchwilio i bwy sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw'r safle picnic hwn.
     - **Cam gweithredu: JM i e-bostio Emily Hughes eto yn gofyn am fwy o wybodaeth am y safle picnic. JM hefyd i ofyn i Boomerang am amcanbris i adnewyddu'r arwydd metel**
   - Mae RJJ wedi dychwelyd y ffurflenni aelod newydd priodol

- Bydd JM yn cysylltu â chlerc Llangynnin a Llanfallteg er mwyn rhannu gwybodaeth ac arfer dda o fewn cynghorau cymuned
- Anfonodd JM wybodaeth am yr ymghynghoriadau cyfredol at bawb a hefyd y seminar sy'n egluro'r fframwaith cynllunio
- Cadarnhaodd JM nad oedd yn orfodol i ni gael dau gynrychiolydd ar bwyllgor ardal Un Llais Cymru er bod y cyfarfodydd yn fuddiol iawn
- Grantiau – bydd JM yn cadw llygad am unrhyw grantiau er mwyn datblygu agwedd a fyddai o fudd i'r gymuned
- Cware Gilfach – doedd neb wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio; mae'r ymgynghoriad ar gau bellach
- Voneus – fe wnaeth rhai aelodau fynychu'r cyfarfod ar 27 Gorffennaf. Mae Openreach yn mynd i uwchraddio Efailwen a Glandy Cross ond ni fyddan nhw'n mynd ymhellach na Glasfryn
- Sefyllfa'r dŵr – cafodd y Cyng DP gyfarfod gyda'r bwrdd dŵr bythefnos yn ôl. Mae'r pwysedd dŵr yn well erbyn hyn; bydd y pympiau yn yr orsaf bwmio yn cael eu hadnewyddu fis Tachwedd
- Cyfarfod y Llwybrau Cyhoeddus – trefnwyd y cyfarfod ar gyfer Nos Fawrth 13 Medi yng Nghaffi Beca. Fe'i hysbysebwyd ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned a hefyd ar dudalen Facebook Rhwydwaith Efailwen. Bu rhaid gohirio oherwydd marwolaeth y Frenhines. Aildrefnwyd ar gyfer heno ac fe wnaeth 33 o aelodau'r gymuned fynychu. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Cyng DP a chafodd y cyfarfod gyfle i nodi'r llwybrau roedden nhw'n awyddus i'w clirio a gwella mynediad. Nodwyd rhifau'r llwybrau hyn:
  - Hebron: FP 4/25, FP 4/26, FP 4/28
  - Efailwen: FP 52/5, FP 52/6
  - Login: FP 4/12, FP 4/13
  - Cwmiles: FP 4/7, 4/12, 4/16, 4/19

  Bydd Cyng DP yn rhoi'r wybodaeth hon i'r Cyngor Sir a fydd wedyn yn dod allan i farcio'r llwybrau ac yn trafod gyda'r perchnogion tir
  **Cam gweithredu: Y Cyngh DP i roi diweddariad ar y llwybrau cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf**

3. **Gohebiaeth**

Rhannwyd yr ohebiaeth ganlynol a ddaeth drwy e-bost y Cyngor Cymuned:

- Hyfforddiant Un Llais Cymru ar gyfer Medi a Hydref – pawb i roi gwybod i JM os ydyn nhw am fynychu unrhyw sesiwn hyfforddiant
- Hysbys am sgam biliau trydan
- Cynhadledd arlein Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur dydd Iau 27/10.22
- Holiadur Bwyd
- Holiadur i asesu capasiti a gallu digidol y gymuned
- Ymghyngoriad Treth Gyngor Decach – dyddiad cau 4/10/22
- Gweithdy Rheoli Mannau Gwyrdd ar gyfer Biwamrywiaeth – 13/10/22
- Cynllun Grant Creu Coetir – dyddiad cau 14/10/22
- Gwybodaeth am Homestart Cymru
- Argyfwng Costau Bywyd – creu mannau twym i bobl fynd iddyn nhw - pawb i gadw llygad ar y posibliadau ac am unrhyw grantiau a allai helpu
  **Cam gweithredu: JM i ofyn i RJames Caffi Beca a fyddai diddordeb gyda fe gynnig man twym o dan cynllun a ariennir**
- E-bost gan Tenovus Cancer Cymru a Cerebral Palsy Cymru yn gofyn am gyfraniad – dim ar yr achlysur hwn

**Cam gweithredu: JM i anfon yr ebost am hyfforddiant Cyflwyniad i Gynllunio, dydd Mercher 28/11/22 6 – 8yh at bawb. Mae diddordeb gan RJJ i ymuno**

4. **Arwyddo Sieciau/Mmandad**
   - Sieciau:  arwyddwyd 2 siec:
   - £48 – RDavies, archwiliydd mewnol am ei gwasanaethau ar gyfer 21/22
   - £25 x 2  – am logi Caffi Beca fis Gorffennaf a mis Medi
   - Mandad – mae'r mandad wedi cael ei diweddaru ac mae enwau JM, TL ac AE wedi cael eu hychwanegu bellach.  Bydd y tri yn gallu arwyddo seiciau nawr

5. **Cynllunio**
   - Anfonwyd e-bost cynllunio ynghylch LowerHill, Login at yr aelodau – cais i ddefnyddio carafán at ddibenion twristiaeth. Doedd dim gwrthwynebiad.

6. **Unrhyw Fater Arall**

   Ymunodd Julie Sweet, cynrychiolydd o'r gymuned i godi rhai materion:
   - Gwefan – dywedodd JS y dylai'r cyngor cymuned gael gwefan yn hytrach na neu'n ogystal â thudalen Facebook achos nid pawb sydd ar y cyfryngau cymdeithasol

     **Cam gweithredu:  JM i gael tri dyfynbris ar gyfer datblygu gwefan i'r cyngor cymuned**
   - Diffibrilydd – mae un yn Efailwen, tu allan i Gaffi Beca ond dywedodd JS bod angen un yn Login hefyd. Mae nifer o grantiau ar gael a allai brynu diffib a gallai cael ei osod yn y ciosg neu tu allan i Ganolfan Ffynnonwen

     **Cam gweithredu:  y Cyngor Cymuned i ymchwilio i grantiau/sut i fynd ati i gael deffib yn Login**

   Diweddariad gan y Cyng DP:
   - Dywedodd DP bod yr heolydd a nodwyd ar gyfer eu trwsio yn Efailwen ymhlith y 10 gwaethaf yn yr ardal. Mae'r ffordd o Glandy Cross tuag at Brynhyfryd yn gwaethygu'n sylweddol gyda sawl twll dwfn. Does dim un ohonyn nhw wedi cael eu cynnwys yn yr amserlen waith
   - Ffoniodd yr heddlu y Cyng DP yn ddiweddar i wirio a oedd popeth yn iawn

     **Cam gweithredu:  Y Cyng DP i fynd ar drywydd cais i symud y terfyn cyflymder 40 i lawr i Gaerbedw**
   - Cerflun Twm Carnabwth – cafwyd cyfarfod yn ddiwedd i drafod gosod cerflun o Twm Carnbwth yn Efailwen, ar bwys Caffi Beca. Mae'r pwyllgor yn casglu dyfynbrisiau ar hyn o bryd. Bydd disgwyl i'r cyngor cymuned wneud cyfraniad tuag at hyn ac fe'i cynghorwyd i gynnwys y gost yn y praesept ar gyfer 23/24.

7. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**
   - Nos Fawrth 29 Tachwedd 2022 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

*Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd*

Arwyddwyd:

Cadeirydd: R A Jenner ………………………………… Dyddiad:  29/11/2022